**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Abigail Harris
Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Alex Howells
Prif Weithredwr AaGIC

23 Hydref 2025

Annwyl Ms Harris, Ms Howells

Mae carfan Mawrth 2023 o fyfyrwyr Nyrsio Oedolion ym Mhrifysgol Abertawe wedi cysylltu â ni, yn dweud wrthym nad oes unrhyw swyddi nyrsio oedolion Band 5 ar gael i nyrsys sydd newydd gymhwyso ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe drwy broses ddiweddar Cynllun Symleiddio GIG Cymru. O ganlyniad, maen nhw'n dweud wrthym fod hyd at saith deg o fyfyrwyr yn wynebu diweithdra ar ôl cwblhau eu hyfforddiant nyrsio, sydd wedi'i ariannu gan GIG Cymru o dan gynllun bwrsariaeth Llywodraeth Cymru. Maen nhw hefyd yn dweud bod swyddi gwag yn gyfyngedig yn ardaloedd y byrddau iechyd cyfagos, gan wneud y swyddi hynny'n gystadleuol iawn.

Mae'r myfyrwyr sydd wedi cysylltu â ni yn bryderus iawn am eu dyfodol a'u gallu i weithio o fewn gweithlu GIG Cymru, sy'n ddealladwy. Mae llawer ohonynt yn byw yn lleol yn Abertawe ac wedi hyfforddi o fewn ardal y bwrdd iechyd ond bellach yn canfod na allant gael gafael ar gyflogaeth yn lleol. Maent hefyd yn pryderu am y goblygiadau i amodau eu bwrsariaeth sydd, medden nhw, yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau cyflogaeth o fewn tri mis iddynt gymhwyso ac i'r gyflogaeth honno fod yng Nghymru am o leiaf ddwy flynedd ar ôl cymhwyso.

Os yw'r sefyllfa uchod yn gywir, byddai'n bryderus iawn, i garfan 2023, sy'n wynebu dyfodol ansicr ar hyn o bryd, ond, ar ben hynny, i fyfyrwyr nyrsio yn ehangach, yn ogystal â'r gweithlu ehangach. Byddai hefyd yn tynnu sylw at ddiffygion sylweddol yn y prosesau cynllunio'r gweithlu a recriwtio a chadw staff.

Fel Pwyllgor, rydym yn ymwybodol iawn o'r prinder staffio a'r pwysau gwaith sy'n wynebu gweithlu'r GIG yng Nghymru, ac rydym wedi clywed, fel rhan o ymchwiliadau blaenorol, am ymdrechion AaGIC a byrddau iechyd i recriwtio staff newydd a chadw staff presennol. Ymddengys bod penderfyniad i beidio â chynnig swyddi nyrsio lefel mynediad i fyfyrwyr sydd newydd gymhwyso yn mynd yn hollol groes i hyn.

Yng ngoleuni hyn, ac fel mater o frys, a allwch chi:

1. cadarnhau'r sefyllfa o ran swyddi gwag nyrsio Band 5 ar gyfer carfan hyfforddi 2023 – a oes unrhyw swyddi gwag o'r fath ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; a ydych chi'n bwriadu sicrhau bod unrhyw swyddi gwag ar gael yn y dyfodol agos ac, os felly, faint;

2. amlinellu pa gyngor sydd ar gael, neu fydd ar gael, i'r garfan bresennol o ran y camau nesaf a'r opsiynau sydd ar gael iddynt;

3. cadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn debyg ar draws byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid yn unig mewn perthynas â nyrsio ond o ran rolau gofal iechyd ehangach; a

4. amlinellu pa gyngor sydd, neu fydd, yn cael ei roi i'r garfan bresennol ynglŷn â'r sefyllfa o ran eu cyllid bwrsariaeth os nad ydynt yn gallu bodloni telerau eu cytundeb bwrsariaeth oherwydd diffyg swyddi addas sydd ar gael gan y bwrdd iechyd.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chyfarwyddwr Gweithredol RCN Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb buan.

Yn gywir



Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.